**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD 2 Medi 2024**
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

Glyn Griffiths, Siân Cwper, Bethan Gritten, Cenwyn ap Tomos, June Jones

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Ymddiheuriadau

Mae’r Cynghorydd Elin Jones wedi ymddiswyddo. Diolchodd y cyngor cymuned iddi am ei gwaith ac ymroddiad dros y blynyddoedd diwethaf. Gofynnwyd i’r Clerc ysgrifennu ar ran y cyngor cymuned i ddiolch iddi.

Golyga hyn y bydd yna yn awr 3 sedd wag.

## 3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Datganodd y Cynghorydd Bethan Gritten fuddiant yn Eitem 5.6, gan fod posibilrwydd y byddai ei gwr yn debygol o gynnig pris i wneud y gwaith. Nid oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu gan nad oedd proses casglu prisiau wedi dechrau eto.

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 24 Mehefin 2024.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 13 Mai 2024, heblaw am gywiro camgymeriad yn ‘gohebiaeth’ ble y cyfeirir at ostwng y cyflymder yn Rhyd o 20 m.y.a. i 20 m.y.a., pan ddylai ddarllen gostwng o 30 m.y.a. i 20 m.y.a.

Hefyd, fe gytunwyd gwneud man newidiadau i baragraff 9.8 sydd yn trafod maes chwarae yn Llanfrothen

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Bethan Gritten

## 5. Materion yn codi o’r Cofnodion

### 5.1 Y Ganolfan

Cafodd y Cynghorydd Bethan Gritten drafodaeth efo Prifathrawes Ysgol Y Garreg i weld a fyddai’n bosibl symud y giât. Mae’r ysgol yn parhau yn anfodlon i’w symud.

Gofynnwyd i’r Clerc wirio pa ran o’r llwybr sydd wedi ei lesu fel rhan o brydles Y Ganolfan.

### 5.2 Goryrru Llanfrothen a gosod cyflymder 20 m.y.a.

Parheir i ddisgwyl diweddariad gan Gyngor Gwynedd am osod y llinellau gwyn yn Llanfrothen.

### 5.3 Mynwent Tan Lan

Mae’r fynwent wedi cael ei dorri eto am y trydydd tro ac yn edrych yn daclus.

### 5.4 Prosiect Coed Ywen

Cysylltodd y Cynghorydd Nia Povey efo Parc Cenedlaethol Eryri gan ddweud y byddai’n well cael y coed o boptu’r giât fynediad.

Mae Parc Cenedlaethol  wedi ysgrifennai a dweud gwell cael y coed o boptu’r giât a Pharc Cenedlaethol Eryri yn fodlon efo hyn.

Byddant yn trefnu eu plannu tua mis Rhagfyr.  .

### 5.5 13 Garreg Frech

Parheir i ddisgwyl ateb gan Gyngor Gwynedd i’r llythyr a ddanfonwyd at adran Tai ac Eiddo fis Ebrill 2024.

Fe gytunwyd y byddai’r Cynghorydd Nia Povey yn cysylltu efo ADRA fel perchnogion yr eiddo drws nesaf, gan fod pryder fod cyflwr 13 Garreg Frech yn effeithio ar yr eiddo hwnnw.

Cytunwyd hefyd i gysylltu efo Aelod Cabinet Cyllid Cyngor Gwynedd yn gofyn am amserlen benodol o ran casglu unrhyw ôl-ddyled treth cyngor ar yr eiddo.

Os na fyddai ymateb positif gan Gyngor Gwynedd o fewn pythefnos, ni fyddai yna fawr o ddewis ond i gysylltu efo’r wasg er mwyn mynegi siom am ddiffyg ymateb a gweithrediad gan Gyngor Gwynedd i ddod ag eiddo gwag yn ôl i’r stoc tai, a hynny mewn cyfnod pan fo argyfwng tai yng Ngwynedd.

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Siân Cwper

### 5.6 Cysgodfan Fysiau Llanfrothen

Y cam nesaf yw cael amcan brisiau am y gwaith o adeiladu’r gysgodfan.

Mae’r pensaer wedi cynghori na fydd hi’n broblem symud y fainc bresennol a chael lle eistedd yn rhan o’r gysgodfan ei hun.

Cytunwyd i geisio prisiau efo a heb le eistedd fel rhan o'r gysgodfan erbyn 1 Tachwedd, fel y byddai'n bosibl trafod yng nghyfarfod 4 Tachwedd, efo'r bwriad fod y gwaith yn dechrau yn Ebrill 2024.

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio**: Bethan Gritten

**5.7 Diffribliwyr**

Mae symiau yn parhau i ddod i mewn gan y cod QR a drwy'r blwch casglu arian ym maes parcio Croesor.

**5.8 Llwybr Llanfrothen i Benrhyndeudraeth**

Mae'r Cynghorydd Nia Povey i drefnu cerdded drwy'r tir efo peiriannydd sifil ac aelod lleol o'r cyhoedd er mwyn cerdded y llwybr llai uchelgeisiol a chael syniad o beth sy'n bosibl dros yr wythnosau nesaf.

**5.9 Cae Chwarae**

Cafodd Y Cynghorydd Nia Povey gadarnhad gan Gyngor Gwynedd fod y cae chwarae o dan yr ysgol ym mherchnogaeth yr ysgol.

Mi ddylai cae chwarae'r ysgol fod ar gael y tu allan i oriau'r ysgol. Byddai hwnnw yn adnodd addas i'r gymuned. Awgrymwyd felly fod y grŵp sydd am sefydlu cae chwarae yn rhoi ystyriaeth i hwnnw ac yn cysylltu efo'r ysgol i drafod.

**5.10 Dŵr Ffordd Rufeinig**

Wedi ei adrodd i'r Cyngor ond heb gael diweddariad ganddynt.

**6. Materion Ariannol**

**6.1** Cyflog Clerc Gorffennaf 2024 £239.72

TWE £59.80

**6.2** Cyflog Clerc Awst 2024 £239.72

TWE £59.80

**6.3** Anfoneb Swyddfa Archwilio Cymru ARINV/006676 £2,138.00

**6.4** Costau banc hyd at 5 Mehefin 2024 £8.00

Costau banc hyd at 5 Gorffennaf 2024 £8.00

Costau banc hyd at 5 Awst 2024 £8.00

**6.5** yu Energy Anfoneb 01796479 £17.60

yu Energy Anfoneb 01911817 £542.38

**6.6** Cymru 1 gwasanaeth rhyngrwyd anfoneb 9614 £422.40

**6.7** Ad-dalu blodau mynwent Tan Lan i'r Cynghorydd Nia Povey £6.00

**6.8** Anfoneb Dunn & Ellis 29/07/2024 £65.70

**6.9** Derbyn taliad SumUp i'r banc 21 Mehefin 2024 - £5.00

**6.10** Derbyn taliad SumUp i'r banc 27 Mehefin 2024 - £5.00

**6.11** Derbyn taliad SumUp i'r banc 28 Mehefin 2024 - £5.00

**6.12** Derbyn taliad SumUp i'r banc 1 Gorffennaf 2024 - £5.00

**6.13** Derbyn taliad SumUp i'r banc 3 Gorffennaf 2024 - £5.00

**6.14** Derbyn taliad SumUp i'r banc 4 Gorffennaf 2024 - £5.00

**6.15** Derbyn taliad SumUp i'r banc 8 Gorffennaf 2024 - £12.00

**6.16** Derbyn taliad SumUp i'r banc 12 Gorffennaf 2024 - £5.00

**6.17** Derbyn taliad SumUp i'r banc 15 Gorffennaf 2024 - £19.50

**6.18** Derbyn taliad SumUp i'r banc 16 Gorffennaf 2024 - £5.00

**6.19** Derbyn taliad SumUp i'r banc 17 Gorffennaf 2024 - £7.00

**6.20** Derbyn taliad SumUp i'r banc 25 Gorffennaf 2024 - £2.92

**6.21** Derbyn taliad SumUp i'r banc 29 Gorffennaf 2024 - £5.00

**6.22** Derbyn taliad SumUp i'r banc 30 Gorffennaf 2024 - £7.50

**6.23** Derbyn taliad SumUp i'r banc 31 Gorffennaf 2024 - £5.00

**6.24** Derbyn taliad SumUp i'r banc 1 Awst 2024 - £3.00

**6.25** Derbyn taliad SumUp i'r banc 2 Awst 2024 - £11.00

**6.26** Derbyn taliad SumUp i'r banc 5 Awst 2024 - £15.00

**6.27** Derbyn taliad SumUp i'r banc 7 Awst 2024 - £12.00

**6.28** Derbyn taliad SumUp i'r banc 12 Awst 2024 - £5.00

**6.29** Derbyn taliad SumUp i'r banc 15 Awst 2024 - £3.00

**6.30** Derbyn taliad SumUp i'r banc 19 Awst 2024 - £15.00

**6.31** Derbyn taliad SumUp i'r banc 22 Awst 2024 - £2.50

**6.32** Derbyn taliad SumUp i'r banc 27 Awst 2024 - £7.00

**6.33** Derbyn taliad SumUp i'r banc 29 Awst 2024 - £3.00

**6.34** Derbyn ffi llogi'r Ganolfan Comisiynydd Heddlu £150.00

**6.35** Balans yn y prif gyfrif 26 Awst 2024 £13,502.13

**6.36** Balans yn y cyfrif cadw 26 Awst 2024 £22,708.56

**7. Gohebiaeth**

- Ymgynghoriad System Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy Cyngor Gwynedd
  Cytunwyd y gallasai aelodau ymateb fel unigolion
- Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd - galw am safleoedd
  Ni fedrwyd meddwl am unrhyw safleoedd addas i'w cynnig yng nghymuned Llanfrothen

**8. Cynllunio**

Dim.

**9. Materion Eraill**

**9.1 Ynni Dŵr Croesor**

Mae stad Brondanw cynnig £1,392.30, fel cyfraniad o elw Ynni Dŵr Croesor ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf, 2023/24. Cytunwyd i roi gwybod i stad Brondanw fod y cyngor cymuned yn fodlon ar y swm yma

Mynegwyd fod cerbydau 4x4 yn gyrru ar y traciau ar y ffordd i'r gwaith ynni dwr, ar ôl mynd heibio Garth Moel at y tŷ tyrbin. Cytunwyd i ysgrifennu at stad Brondanw i nodi hyn ac awgrymu fod y giât sy'n arwain i'r gwaith Hydro yn cael ei chloi.

**9.2 Cyfethol**

Gan fod y Cynghorydd Elin Jones wedi cynnig ei hymddiswyddiad, ceir tair sedd wag, a derbyniwyd mynegiant o ddiddordeb gan ddau oedd am ymuno a'r cyngor cymuned.

Cytunwyd i gyfethol Hanna Jones

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Bethan Gritten

Cytunwyd i gyfethol Beti Williams

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Bethan Gritten

Oherwydd ymddiswyddiad Y Cynghorydd Elin Jones, etholwyd Y Cynghorydd Bethan Gritten yn is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2024/25

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Siân Cwper

### 9.3 Etholiad

Mynegwyd anfodlonrwydd fod y ddau oedd yn arolygu'r etholiad cyffredinol yn Y Ganolfan fis Gorffennaf yn Etholiad mis Mai yn uniaith Saesneg. Roedd hyn yn hynod o siomedig o gofio fod Llanfrothen yn gymuned arbennig o Gymraeg.

### 9.4 Lluniau Cylchdeithiau Teithiau Cerdded

Cysylltodd Swyddog Gwasanaethau Twristiaeth Cyngor Gwynedd i holi a fyddai'n bosibl cael lluniau o'r pedwar dogfen PDF sy'n amlygu cylchdeithiau cerdded yn ardal Llanfrothen er mwyn eu rhoi ar wefan twristiaeth y Cyngor.

Mae'n debyg fod y ddogfennaeth berthnasol efo cyn aelod o'r cyngor cymuned, ac fe ofynnwyd i'r Clerc gysylltu er mwyn gweld beth oedd ar gael.

### 9.5 Bwrdd Gwybodaeth ar y ffordd i'r Cnicht

Cysylltodd aelod o'r cyhoedd efo'r Cynghorydd Bethan Gritten a holi a fyddai'n bosibl cael rhyw fath o fwrdd/garreg yn crynhoi hanes a straeon lleol ardal Croesor fel nad ydynt yn cael eu colli.

Y lleoliad fyddai i fyny'r rhiw serth drwy'r goedwig o Gae Glas ac i fyny'r ffordd Rufeinig drosodd am Nanmor.

Bydd angen gofyn am ganiatâd y perchennog tir cyn mynd ymlaen efo'r mater.

Cytunodd Y Cynghorydd Bethan Gritten i holi am brisiau.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 4 Tachwedd 2024 am 7 yr hwyr**